# Cofnodion Cyfarfod 4/9/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Ken Edwards, Clare Mackintosh, Rhys Evans, Huw Symonds, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Jacqueline Allen, Sion McGuiness, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Eifion Roberts.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, a llongyfarchodd y Cyng Rhys Evans ar ei swydd newydd. Dywedodd ei bod wedi cynrychioli'r cyngor trwy osod torch ar gofeb y milwyr ar ddiwrnod cofio VJ, ac fe ddymunodd yn dda i Dilwyn Morgan wrth iddo gymryd rhan yn Nhriathlon y Bala yn fuan.
2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 3/7/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Ymddiswyddiad y Cyng Eric Williams: Derbyniwyd neges gan Eric Williams yn ymddiswyddo o'i rôl fel aelod o'r cyngor. Cytunwyd i gysylltu hefo Eric i ddiolch iddo am ei waith dros y cyngor a'r ardal, ac i ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol. Cytunwyd i wneud trefniadau i lenwi'r sedd wag yn y cyfarfod nesaf o'r cyngor.

    ii. Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd: Cafwyd trafodaeth bellach ar posibilrwydd o gyfrannu tuag at ddarpariaeth pobl ifanc y dref, a gofynnwyd i'r Cyng Dilwyn Morgan i gael sgwrs bellach gyda staff y Gwasanaeth Ieuenctid i drafod yr anghenion a'r gwahanol opsiynau.

    iii. Taflen lwfans Aelodau: Cwblhawyd y daflen gan yr aelodau, a nodwyd y bydd y wybodaeth yn cael ei arddangos yn gyhoeddus.

    iv. Tomen y Bala: Nodwyd y bydd angen paratoi dogfennau tendr ar gyfer y gwaith o gynnal a chadw'r Domen erbyn gwanwyn 2026. Nodwyd hefyd fod sylwadau wedi eu derbyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y Domen ddechrau'r haf.

    v. Grant Gwynedd Ni: Nodwyd fod y cais am grant i wneud gwelliannau i'r Stryd Fawr wedi ei gymeradwyo. Cytunwyd i dderbyn y cynnig ac i wahodd Grŵp Busnesau'r Bala i gydweithio ar y prosiect.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

vi. Trefniadau parcio ger Llyn Tegid: Derbyniwyd neges gan Barc Cenedlaethol Eryri yn argymell newidiadau sylweddol i'r trefniadau parcio ger Llyn Tegid ar gyfnodau prysur yr haf. Cytunwyd i anfon at staff y Parc i gefnogi'r bwriad ac i ddiolch am eu ymdrechion, gan gynnig cydweithio ar y trefniadau o'r dyfodol.

vii. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: Nodwyd fod cais y Cyngor Tref i leoli Eisteddfod 2028 yn y Bala wedi cael ei gydnabod gan staff yr Urdd.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd ei fod wedi bod yn rhan o'r trafodaethau i ddatrys y problemau parcio, a'i fod wedi argymell sustem ardoll a fyddai'n dod ag incwm i'r Cyngor Tref a fyddai o gymorth wrth gynnal asedau lleol. Dywedodd hefyd fod arolwg o linellau melyn y dref ar y gweill, fod angen sylw i gyflwr Ffynnon Beuno a slabiau palmant ger Heol Ffrydan. Dywedodd ei fod wedi cael cadarnhad nad oes sail i'r honiadau y bydd fflatiau Heol y Berwyn yn cael eu cynnig fel lloches i fewnfudwyr.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod gwaith ar y gweill i fonitro cyflwr asedau'r cyngor. Adroddwyd hefyd fod angen tocio'r gwrych ger yr orsaf heddlu

**Is bwyllgor Tref Gyfeillgar, Adnoddau a'r Nadolig:** Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i drefnu cyfarfod i ddatblygu syniadau ar sut i greu tref dementia ac oed gyfeillgar. Derbyniwyd prisiau i brynu a gosod goleuadau Nadolig ychwanegol, ac fe gytunwyd i fwrw 'mlaen hefo'r gwaith.

**Is bwyllgor Cyllid:** Cytunwyd y bydd angen cyfarfod o'r Is bwyllgor Cyllid yn dilyn 6 mis o flwyddyn ariannol y cyngor.

**Is bwyllgor Cynllun Creu Lle:** Gwnaed trefniadau i gyfarfod i drafod datblygiad cynllun Gwynedd Ni.

**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Dywedodd y Cyng Jacqueline Allen y byddai'n clirio a thacluso blodau'r dref ar ddiwedd tymor yr haf.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Un Llais Cymru:** Adroddodd y Maer ei bod wedi cynrychioli'r cyngor mewn cyfarfod diweddar ym Mhenrhyndeudraeth.

**Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn:** Adroddwyd na chafwyd cyfarfod diweddar o'r gymdeithas.

**Grŵp Busnesau'r Bala:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo aelodau'r Grŵp Busnes i'w gwahodd i gydweithio ar y prosiect Gwynedd Ni.

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y cwmni wedi llwyddo gyda chais pellach am gyllid i adnewyddu Canolfan Bro Tegid, ac y bydd y gwaith yn dechrau yn fuan.

7. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd cais cynllunio i newid defnydd Fronfair o swyddfa i dŷ sengl. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

8. **Materion Cyllid:**
   i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £26,557 yn y cyfri cyfredol, £27,128 yn y cyfri cadw a £618 yng Nghronfa'r Maer. Cytunwyd i drosglwyddo £10,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif cadw. Nodwyd fod trefniadau ar y gweill i'r Maer fonitro cyfrifon banc yn cyngor yn achlysurol.
   ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfonebau hyfforddiant Un Llais Cymru, archwiliad mewnol Cyngor Gwynedd a gwasanaeth PAYE Hill & Roberts.
   iii. Derbyniwyd 50% o braesept 2025/2026 gan Gyngor Gwynedd, ac ad daliad TAW y cyngor am 2024/2025.
   iv. Nodwyd derbyn gwybodaeth am raddfeydd cyflog 2025/2026.

9. **Gohebiaeth:**
   i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwahoddiad i Weithdy Arwyddion y Bala ar Fedi 10fed, ac fe gytunodd y cyng Fiona Hopkins a Moira Mai i gynrychioli'r cyngor. Trafod cais Bala Forecourt am drwydded i werthu alcohol ac nid oedd gwrthwynebiad i'r cais. Derbyniwyd gwybodaeth y bydd Heol Tegid a Heol Arenig yn cau dros dro ar gyfer gwaith hanfodol, a derbyniwyd gwybodaeth y bydd y Tim Tacluso Ardal Ni yn y dref ar W/C 29.9.25.
   ii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am y Gynhadledd Flynyddol.
   iii) Triathlon y Bala: Derbyniwyd copi o'r rhybudd ffurfiol i gau'r A494 ar gyfer y digwyddiad.
   iv) Cyflwr Ffynnon Beuno: Cytunodd y Maer i drafod hyn hefo Cantref.
   v) Gwersyll Glan-llyn: Derbyniwyd gwahoddiad i Ŵyl Glan-llyn i ddathlu pen-blwydd y gwersyll yn 75. Cytunodd y cyng Rhys Evans a Huw Symonds i gynrychioli'r cyngor.
   vi) Gwaith Celf Canolfan Cywain: Derbyniwyd cais i drafod lleoliad y gwaith celf, ac fe gytunwyd i drafod ymhellach hefo'r perchenogion.
   vii) Cae Astro'r Bala: Derbyniwyd gwahoddiad gan Glwb Hoci'r Bala i agoriad swyddogol y cae astro ar Fedi 10fed. Cytunodd y cyng Huw Symonds a Ken Edwards i gynrychioli'r cyngor.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**
   i) Tynnwyd sylw'r cyngor fod slabiau palmentydd ar Heol Ffrydan yn wael, a gofynnwyd i'r clerc gysylltu hefo Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru.
   ii) Tynnwyd sylw hefyd at gyflwr bwrdd gwybodaeth Mary Jones ar y Stryd Fawr, ac fe gytunwyd i drafod hyn gyda Byd Mary Jones.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 2 Hydref 2025.